

yr Athro

Cynhadledd 2019



Daeth aelodau ynghyd ar 5 a 6 Ebrill yng Ngwesty'r Metropole yn Llandrindod ar gyfer difrifoldeb a difyrwch Cynhadledd Flynyddol yr undeb.

Bu trafodaethau a phenderfyniadau ar faterion gan gynnwys diffyg tryloywder cyllidebau addysg, tegwch i ddisgyblion trawsryweddol, cael calendr ysgol sefydlog, dulliau trochi ac ariannu Canolfannau Iaith, a iechyd a lles emosiynol disgyblion a staff. Bydd y penderfyniadau hyn yn gosod yr agenda ar gyfer yr undeb dros y flwyddyn i ddod.

Croesawyd Kirsty Williams AC, y Gweinidog Addysg, i'r Gynhadledd unwaith eto. Yn ogystal ag amlinellu ei

gweledigaeth ar gyfer y gyfundrefn addysg yng Nghymru dros y blynyddoedd nesaf, fe dreuliodd cryn amser yn ymateb i gwestiynau - roedd i weld yn mwynhau'r cyswllt uniongyrchol ag aelodau.

Cewch flas ar weddill y Gynhadledd tu fewn i'r rhifyn hwn.

Draw tua'r De-ddwyrain aiff y Gynhadledd yn 2020 yng Nghwrt Bledwyn, Brynbuga ar 27-28 Mawrth. Mae'r Gynhadledd yn brofiad gwyb - er mwyn dylanwadu, ac er mwyn cymdeithasu ac ymlacio - felly rhowch y dyddiad yn eich dyddiaduron!

Darpar-is-lywydd Cenedlaethol

Dyna llond ceg o deit!! Ond yr hyn mae'n ei olygu yn yr achos yma yw y bydd **Eirlys Edwards** yn dod yn Is-lywydd Cenedlaethol ym mis Medi eleni, ac yn Llywydd Cenedlaethol yn y flwyddyn academaidd 2020-21.

Mae Eirlys yn Bennaeth Ysgol Gynradd Cerrigydrudion, Sir Conwy, ac wedi bod yn aelod o Gyngor Cenedlaethol UCAC ers sawl blwyddyn yn cynrychioli ei sir. Llongyfarchiadau mawr Eirlys.



Yn cyflwyno... Bethan Ruth

Gyda Nia Evans yn gadael am ei chyfnod mamolaeth gyda Morgan Jac Evans, bu'n rhaid llenwi swydd Swyddog Cyfathrebu a Chynorthwydd Personol i ddechrau ym mis Ebrill. Mae'n braf cael cyflwyno'r ymgeisydd llwyddiannus i chi fan hyn.

Cafodd Bethan ei magu yng Nghricieth ac wedyn Dolgellau. Fe fynychodd Ysgol Gynradd Y Brithdir ac yna Ysgol Uwchradd y Gader. Yn y chweched cafodd Bethan ei hethol yn Llywydd ar Undeb Myfyrwyr Colegau Llandrillo, ac fe roedd hi'n gweithio ar ymgyrchoedd yn erbyn codi ffioedd prifysgol ac i achub taliad 'EMA' a dorrwyd dan lywodraeth San Steffan.

Fe aeth i Brifysgol Aberystwyth i astudio BSc.Econ. ac M.A. mewn Gwleidyddiaeth Ryngwladol. Wrth

astudio am ei gradd meist, bu'n warden ar Neuadd Breswyl Pantycelyn ac yn un o'r ymgyrchwyr i gadw'r neuadd ar agor. Wedi iddi raddio, fe aeth yn Swyddog Maes y Gogledd i Gymdeithas yr Iaith am ddwy flynedd a byw yng Nghaernarfon. Llwyddodd buodd yn gweithio fel Cynorthwydd Dosbarth ym Madrid.

Bellach mae hi'n byw yn Aberystwyth gyda'i ffrind o Lydaw sy'n dysgu Cymraeg. Cyn dod i'r swydd fe fu Bethan yn gweithio fel Trefnydd Gŵyl Theatr Ryngwladol i blant a phobl Ifanc, 'Gŵyl Agor Drysau' dan arweiniad Theatr Arad Goch.

Mae Bethan yn hoff iawn o deithio, cerddoriaeth dda a mynd am dro. Yn ogystal mae hi'n hoffi gwirfoddoli yn y gymuned gyda'r elusen i'r digartref 'The Wallich' yn Aberystwyth ac yn aelod o'r gydweithfa greadigol leol 'Gwylan'.

Mae hi'n angerddol am ymgyrchu dros hawliau pobl Cymru ac yn falch iawn o fod yn gweithio i'r undeb hynaf yng Nghymru sy'n pwysu am gyfundrefn addysg annibynnol.



Dyddiadau tymhorau ysgol 2019-20

Gan na fydd UCAC yn cyhoeddi Blwyddlyfr eleni, mae cais wedi dod inni gynnwys dyddiadau tymhorau ysgol yn nhudalennau Yr Athro. Cofiwch y bydd dyddiaduron Y Lolfa (mewn 3 gwahanol faint) ar gael i'w prynu – gyda chynnig arbennig o 20% o ostyngiad i aelodau UCAC (gweler y daflen amgaeedig). Ar gais UCAC, bydd dyddiadau tymhorau ysgol wedi'u cynnwys yn nyddiaduron Y Lolfa eleni am y tro cyntaf.

Tymor yr hydref

Dydd Llun, 2 Medi 2019 - dydd Gwener, 25 Hydref 2019
Dydd Llun, 4 Tachwedd 2019 - dydd Gwener 20 Rhagfyr 2019

Tymor y gwanwyn

Dydd Llun, 6 Ionawr 2020 - dydd Gwener 14 Chwefror 2020
Dydd Llun, 24 Chwefror 2020 - dydd Gwener, 3 Ebrill 2020

Tymor yr haf

Dydd Llun, 20 Ebrill 2020 - dydd Gwener, 22 Mai 2020
Dydd Llun, 1 Mehefin 2020 - dydd Llun 20 Gorffennaf 2020

Noder:

- Cafwyd y dyddiadau uchod gan Lywodraeth Cymru, ac wedi'u gwirio gyda'r Awdurdodau Lleol unigol
- Nid yw'r dyddiadau uchod yn cymryd i ystyriaeth diwrnodau Hyfforddiant mewn Swydd
- Nid yw UCAC yn cymryd unrhyw gyfrifoldeb os oes newid i'r dyddiadau

Bwrdd Golygyddol

Llywydd Cenedlaethol: Roger Vaughan
Is-Llywydd: Julia James
Ysgrifennydd Cyffredinol: Dilwyn Roberts-Young
Cydylynnydd Yr Athro: Rebecca Williams

Nid yw cynnwys Yr Athro o angenrheidiwydd yn farn swyddogol UCAC.

Os hoffech gyfrannu at y cylchgrawn hwn, mae croeso i chi anfon unrhyw syniadau neu erthyglau at: Prif Swyddfa UCAC, Ffordd Penglais, Aberystwyth SY23 2EU Ffôn: 01970 639950, ucac@ucac.cymru, www.ucac.cymru

Croesewir hefyd unrhyw awgrymiadau, syniadau neu sylwadau am Yr Athro.

Tâl Aelodaeth 2019-20

Prisiau wedi rhewi! Dyma fydd tâl aelodaeth UCAC o fis Medi 2019 – dim cynnydd o gwbl ar brisiau eleni.

Categori aelodaeth	Tâl blynyddol	Tâl misol
Llawr amser	£204.00	£17.00
Rhan amser 0.7-0.9	£171.00	£14.25
Rhan amser 0.4-0.6	£138.00	£11.50
Rhan amser 0.3 neu lai	£114.00	£9.50
Blwyddyn academaidd gyntaf o addysgu		AM DDIM
Ail flwyddyn academaidd o addysgu		HANNER PRIS

Lansio pecyn cymorth iechyd meddwl

Ar ddydd Iau, 30 Mai, yn Eisteddfod yr Urdd, Caerdydd a'r Fro, bydd UCAC yn cymryd rhan mewn digwyddiad i lansio Pecyn Cymorth Iechyd Meddwl ar gyfer athrawon.

Mudiad **meddwl.org** sy'n lansio'r pecyn 'Mae gan bawb iechyd meddwl'. Mae UCAC yn falch iawn o gael cydweithio gyda meddwl.org sy'n gwneud gwaith rhagorol ym maes iechyd meddwl, a hynny drwy gyfrwng y Gymraeg.

Daeth lles athrawon a disgyblion fel ei gilydd i'r amlwg yn ystod ein Cynhadledd Flynyddol eleni. Roedd sawl cynnig yn pwysleisio'r angen am hyfforddiant a chefnogaeth – er mwyn helpu athrawon i ymateb yn briodol i broblemau iechyd meddwl disgyblion, ond yn ogystal, i adnabod y symptomau yn eu hunain a'u cydweithwyr.

Fel rhan o'r lansiad, caiff animeiddiad Cymraeg ei ddangos am y tro cyntaf, yn ogystal â chyflwyniad ynghylch beth arall sydd i'w gael yn y pecyn a beth oedd y rhesymau dros ei greu.

Addasiad yw'r pecyn o un cafodd ei ddatblygu'n wreiddiol gan yr Anna Freud National Centre for Children and Families (mae'r pecyn Saesneg i'w weld yma:

<https://www.annafreud.org>). Mae wedi'i anelu at ddisgyblion Cyfnod Allweddol 3, ond gall fod yn hyblyg.

Mae'n seiliedig ar animeiddiad ac yn llawn adnoddau cynorthwyol megis posteri, cynlluniau gwersi a chyflwyniadau parod, taflenni gweithgareddau a llyfrynau gwybodaeth defnyddiol i rieni ac i athrawon ynghylch sut y gallent gefnogi iechyd meddwl pobl ifanc.

Roedd meddwl.org eisoes wedi cychwyn ar y gwaith addasu, cyfieithu a throsleisio pan ddaeth y newyddion bod Ras yr Iaith yn cynnig grant o £500 tuag at y gwaith ac i sicrhau bod modd ei hyrwyddo a'i hanfon at bob ysgol Gymraeg a dwyieithog.

Mi fydd y pecyn ar gael i'w lawrlwytho yn electroneg am ddim i bawb.

Mae modd cael diweddariadau drwy ddilyn **meddwl.org** ar **Twitter** (@gwefanmeddwl), **Facebook** (Meddwl), ac **Instagram** (@gwefanmeddwl), neu mae modd tanysgrifio i gylchlythyr meddwl.org ar <https://meddwl.org/tanysgrifio/>

Lansiad Pecyn Cymorth: Mae gan bawb iechyd meddwl
Dydd Iau, 30 Mai, 2 o'r gloch

Tipi Syr IfanC, Eisteddfod yr Urdd Caerdydd a'r Fro

Siaradwyr: Sophie Ann Hughes (meddwl.org); Dilwyn Roberts-Young (Ysgrifennydd Cyffredinol UCAC); Aled Roberts (Comisiynydd y Gymraeg)

Croeso i bawb!



Anna Freud
National Centre for
Children and Families

meddwl.org
meddwl.org ar weithgaredd

Mae gan bawb iechyd meddwl

...yw'r enw ar ein pecyn cymorth i athrawon – wedi ei ddylunio gan Ganolfan Genedlaethol Plant a Theuluoedd Anna Freud a'i addasu i'r Gymraeg gan meddwl.org.

Mae'r pecyn yn gysylltiedig ag animeiddiad ac wedi ei anelu at ddisgyblion uwchradd Cyfnod Allweddol 3 (Blynyddoedd 7-9). Fe'u datblygwyd mewn cydweithrediad â phobl ifanc, athrawon ac arbenigwyr iechyd meddwl a'i nod yw i sicrhau fod gan bobl ifanc:

- Iaith gyson a hygyrch i drafod iechyd meddwl
- Ddealltwriaeth well o hunanofal iechyd meddwl
- Wybodaeth am bwy i ofyn am gefnogaeth pan fo'i angen

Mae'r pecyn wedi ei ddylunio i'w ddefnyddio gan athrawon a staff ysgol ochr yn ochr â'r animeiddiad. Bydd ar gael ar-lein i'w lawrlwytho yn hwyrach eleni ac mae'n cynnwys:

- Cynllun Gwers a Chyflwyniad Powerpoint
- Cynllun Gwasanaeth a Chyflwyniad Powerpoint
- Adnoddau ac ymarferion dosbarth amrywiol

Mae copïau caled o'r pecyn hefyd yn cynnwys:

- Llyfryn 'Cefnogi iechyd meddwl a lles mewn ysgolion uwchradd' i staff ysgolion, a
- Thaflen 'Siarad am iechyd meddwl gyda phobl ifanc yn yr ysgol uwchradd' i rieni a gofalgwyr.

Am ddiweddariadau ar lansio'r pecyn, dilynwch meddwl.org ar Trydar neu Instagram @gwefanmeddwl, Facebook 'Meddwl' neu cysylltwch ar post@meddwl.org



Mae gan bawb iechyd meddwl

©2018 Anna Freud National Centre for Children and Families. Ni chaniateir unrhyw addasiad heb ei awdurdodi i'r ddogfen hon. Cysylltwch ag post@meddwl.org gydag unrhyw ymholiad ynghylch caniatod cyfieithu.

A yw'n disgyblion yn 'frodorion digidol'?

Braf oedd cael cwmni **Guto Aaron**, un o aelodau'r Undeb, athro yn Ysgol Bro Sannan, Aberbargoed a hyfforddwr ac ymgynghorydd ar dechnoleg addysg, yn ystod y Gynhadledd eleni.

Nid yn unig roedd yn y Gynhadledd yn cynrychioli Sir Caerffili, ond cafwyd cyflwyniad hynod ddifyr a diddorol ganddo ar y defnydd o dechnoleg yn ogystal.

Prif fyrdwn y sgwrs oedd yr angen i wir baratoi ein disgyblion ar gyfer y byd cynyddol ddigidol a chyfnewidiol.

Pwyslais mawr Guto oedd na ddylai unrhyw un fod ag ofn defnyddio technoleg yn yr ystafell ddosbarth – nid oes angen mynd i 'decno-panig'!

Os ydyn ni'n trin ein disgyblion fel 'brodorion digidol' – gan gymryd yn ganiataol eu bod deall y cwbl yn barod – rydym yn gwneud cam â nhw, ac yn colli cyfle i ddatblygu eu sgiliau digidol.

Mae'r byd yn newid yn gyflym ac nid yw'r angen am sgiliau digidol o safon uchel yn mynd i ddiflannu.

Er mwyn datblygu'r sgiliau hyn, rhaid sicrhau bod ysgolion yn gallu diwallu'r anghenion, a'u bod yn barod am y newidiadau

technolegol nesaf trwy fuddsoddi'n effeithiol. Gofynnodd Guto a oedd pob ysgol yn:

- cynllunio'n effeithiol ar gyfer ymdopi a'r newidiadau yn y 5-10 mlynedd nesaf
- defnyddio'r cwmwl yn effeithiol
- defnyddio adnoddau cyfredol sy'n gweithio
- sicrhau bod staff yn gyffyrddus yn defnyddio'r dechnoleg ddiweddaraf
- cynnig hyfforddiant i staff ac yn rhoi'r cyfle i ddod i arfer â'r dechnoleg ddiweddaraf, cyn ei chyflwyno i'r disgyblion
- ystyried beth yw pwynt technoleg ac yn ei defnyddio'n effeithiol er mwyn dysgu sgiliau pob dydd.

Mae'r her felly'n glir i bob athro ac ysgol a diolch yn fawr i Guto am ddod atom i'n rhoi ar ben y ffordd.

Gallwch ddilyn Guto ar Twitter: <https://twitter.com/MrGutoA>



Gofalu am ein lles – sut ydyn ni'n siarad â'n hunain?

Mae gan **Tracey Jones**, o gwmni mentora **Chrysalis**, brofiad eang o roi hyfforddiant i athrawon er mwyn gwella'u lles, gan ganolbwyntio ar feddylfryd a safon yr iaith emosiynol.

Siaradodd Tracey'n agored iawn am ei chyfnod fel athrawes, a'i phrofiad o straen a'i sgil-ffeithiau. Hyn sydd wedi'i harwain i ymchwilio a gweithio yn y maes a chynnig cefnogaeth ymarferol i eraill.

Pwysleisiodd yn ei chyflwyniad bwysigrwydd rhoi sylw i **sut ydyn ni'n siarad â'n hunain** - a dadansoddi **beth yw'r emosiwn sydd ynghlwm wrth yr iaith fewnol?**

Mae hi'n annog pawb i ofyn y cwestiwn: ydy'r meddwl yma'n fy helpu i? Ac os nad yw'n helpu, gofyn y cwestiwn, beth sydd ei angen arna' i nawr i fy helpu i?

Un enghraifft a roddwyd oedd yn hytrach na rhestru'n feddylol popeth

sydd angen ei wneud, sicrhau ein bod ni'n rhestru ac yn llongyfarch ein hunain am bopeth sydd wedi cael ei wneud – yn enwedig cyn mynd i gysgu.

Mae Tracey'n gweld ei hun fel 'Alcemydd iaith' sy'n sicrhau fod pobl yn newid eu patrymau iaith emosiynol er mwyn gwella'u lles.

"...yn hytrach na rhestru'n feddylol popeth sydd angen ei wneud, sicrhau ein bod ni'n rhestru ac yn llongyfarch ein hunain am bopeth sydd wedi cael ei wneud"

Rhoddodd Tracey, bwyslais mawr ar y 'triad emosiynol' – y ffocws, yr iaith, a'r ffisioleg. Mae angen rhoi ffocws cywir ar yr hyn sy'n effeithio arnom ni, bod yn ymwybodol o sut mae hyn yn ein newid o ran ffisioleg a newid yr iaith emosiynol fel bod modd newid un teimlad am un arall.

Mae Tracey'n annog bod 'ymwybyddiaeth ofalgar' ar waith ym mhob gweithle, gan geisio sicrhau fod pawb yn mwynhau'r presennol ac nad ydynt yn poeni mewn modd dinistriol am heriau'r dyfodol.

Fel rhan o hyn, yn ôl Tracey, mae angen sicrhau fod pawb yn ymwybodol o'r gwerthoedd sydd bwysicaf iddyn nhw, a sut mae hynny'n dylanwadu ar eu ffordd o ymwneud â, ac ymateb i, sefyllfaoedd a phobl eraill. Drwy wneud hynny, a bod yn ymwybodol o sut mae eraill yn meddwl, mae modd symud tuag at gydweithio effeithiol, hwylus a lleihau straen.

Am fwy o wybodaeth am waith Tracey, ewch i'r wefan www.chrysalismindsetcoaching.com



“Cyfnod cyffrous” meddai'r Gweinidog



Braf oedd croesawu Kirsty Williams AC, Gweinidog Addysg Cymru, i'r Gynhadledd unwaith eto eleni.

“Rhaid i addysg fod yn genedlaethol – a rhaid iddi fod yn ein dwylo ni.”

Yn ôl ei harfer, fe siaradodd yn gryno am ddatblygiadau byd addysg a'i gweledigaeth ar gyfer y dyfodol cyn neilltuo amser sylweddol ar gyfer cwestiynau gan aelodau.

“Mae'r cwricwlwm cenedlaethol wedi atal y proffesiwn rhag defnyddio'i greadigrwydd.”

Ar drothwy cyhoeddi drafft o'r cwricwlwm newydd, dywedodd pa mor gyffrous yw'r cyfnod o'n blaenau. Anogodd bawb i ymateb i'r drafft a mynegi barn, o nawr tan ddiwedd tymor yr haf, er mwyn dylanwadu ar y cwricwlwm. Mae modd gwneud hynny ar wefan Hwb:

<https://hwb.gov.wales/cwricwlwm-drafft-i-gymru-2022>

“Rwy'n ymrwmo i chi y bydd unrhyw gynigion mewn perthynas â'r cwricwlwm yn cadarnhau'r gallu i drochi plant yn y Gymraeg – a phwysigrwydd y dull trochi.”

Dywedodd y byddai'r Gymraeg yn cael ei hymgorffori a'i hystyng yn draws y cwricwlwm, ac y byddai angen i'r sector cyfrwng Cymraeg gydweithio gyda'r sector cyfrwng Saesneg i wireddu'r weledigaeth.

“Mae'n adeg allweddol o ran tâl ac amodau gwaith athrawon – bydd modd iddynt gefnogi gweithredu'r Genhadaeth Genedlaethol. A diolch yn fawr i UCAC am gefnogi mewn modd mor gadarn datganoli'r grymoedd.”

Mynegwyd pryderon gan aelodau am bynciau mor amrywiol â chyllidebau ysgolion, datblygiad proffesiynol athrawon mewn

perthynas â'r cwricwlwm newydd, cymarebau plant/oedolion yn y Cyfnod Sylfaen, a sut mae'r Llywodraeth yn bwriadu hyfforddi digon o athrawon â sgiliau Cymraeg i helpu cyrraedd y targed o Filiwn o Siaradwyr erbyn 2050.

“Recriwtio a chadw athrawon yw un o'r heriau strategol fwyaf – nid yn unig yng Nghymru ond yn rhyngwladol. Os na awn ni i'r afael â llwyth gwaith a rhesymau eraill dros adael y proffesiwn, mae hi fel ceisio llenwi bath heb y plwg.”

Pwysleisiodd y Gweinidog mai Penaethiaid sydd yn y sefyllfa orau i benderfynu ar anghenion datblygiad a hyfforddiant eu staff, a rhaid ystyried dulliau cydweithredol newydd yn hyn o beth – nid 'anfon pobl ar gyrsiau' yn unig. Cadarnhaodd na fydd toriad i'r Grant Gwella Addysg eleni.



Dilwyn Roberts-Young (Ysgrifennydd Cyffredinol); Kirsty Williams AC (Gweinidog Addysg); Roger Vaughan (Llywydd Cenedlaethol)

Julia James: Fy Siwrne

Julia James, Ysgol Bro Teifi, Ceredigion, fydd Llywydd Cenedlaethol UCAC o fis Medi. Dyma grynodeb a'i haraith i gynadleddwyr - a llun ohoni'n cael ei hurddo i'r rôl gan Roger Vaughan, Llywydd Cenedlaethol 2018-19.

Digwyddodd y cyfan ym mis Gorffennaf 1968 pan aned efeilliaid yn annisgwyl i fy rhieni! Un fach eiddil go wantan oeddwn i ar y dechrau - yr ail blentyn, ond roedd y siwrne heriol honno wedi gosod y sylfeini ar gyfer y dyfodol yn sicr.

Roedd y teulu ar y ddwy ochr yn ffermio ers cenedlaethau - teulu fy nhad o Lanrhaeadr-ym-Mochnant, a theulu mam o fferm Llwydiarth, Llanfihangel-yng-Ngwynfa. Does dim rhyfedd fod y capel wedi chwarae rhan mor ganolog yn fy magwraeth o ystyried fod William Morgan wedi cyfieithu'r Beibl yn y naill bentref, a'r emynyddes Ann Griffiths o'r pentref arall!

Roedd fy nain yn fydwraig oedd yn teithio ar hyd a lled lonydd y canolbarth ar feic modur. Dynes o gadernid o ochr arall y Berwyn oedd fy nain. Roedd fy nhaid yn ddall ar ddiwedd ei oes, ac roedd darllen milltiroedd o'r Beibl hefyd yn brentisiaeth dda ar gyfer y dyfodol fel athrawes.

O'r dyddiau cynnar hynny roedd dwy yrfa ar fy meddwl, sef bod yn athrawes neu ddarllen y newyddion! Gwiredwyd y ddwy uchelgais i raddau wrth i mi ddod yn athrawes Gymraeg a Chyfyngau.

Roedd y Gymraeg yn bwysig o'r dechrau, a hynny'n bennaf dwi'n credu, gan nad oeddwn yn ddigon ffodus i dderbyn addysg Gymraeg. Doedd dim gair o addysg Gymraeg yng ngogledd Powys ar y pryd hynny, ond fe wnaeth hynny finiogi arf Cymreictod yn fwy ynof.

Cefais addysg gynradd ardderchog o dan ofal yr athrawes Mair Penri, Llanuwchllyn. Roedd rhai athrawon yn Llanfyllin hefyd yn barod i gydnabod eu bod yn Gymry, ac yn ddi-os efo'r rheini roeddwn i'n gallu uniaethu.

Cawsom ergyd fawr fel teulu o golli fy nhad pan oeddwn yn yr ysgol, ond rhaid oedd parhau gyda'r siwrne er mor anodd oedd cadw popeth ynghyd ar y fferm. Mae dysgu, fel amaeth, yn ffordd o fyw yn ei hunan - does dim oriau penodol na therfyn i'r gwaith hwnnw.

Hedfan y nyth oedd fy hanes i, ac yn 1986 roedd y siwrne wedi mynd â fi i Goleg Aberystwyth, a threuliais gyfnod hapus iawn yno cyn derbyn swydd blwyddyn yn Llandysul.

Am brofiad oedd mynd i le hollol ddieithr. Cymuned glos Gymreig amaethyddol. Dyma'r cyfnod y gofynnodd ffrind i fi o Landysul, Aled Evans, i fynychu cyfarfod undeb. Pam lai? Cael fy ngwneud yn ysgrifenyddes. Aled, gyda llaw, yn Gyfarwyddwr Addysg ar rai ohonoch ar Gyngor Nedd Sir Port Talbot erbyn heddiw!

Dyma pryd y cyfarfyddais â Dilwyn am y tro cyntaf, ag yntau'n athro ym Mhontgarreg! Ymhén dim, cael fy hun ar siwrne trwy Gymru gyda chynadleddau UCAC. Profiad pleserus iawn. Fel merch ifanc o Faldwyn, roeddwn yn teimlo'n annigonol braid ymysg hoelion wyth Ceredigion - pobl fel Emyr Hywel, Wyn James, Ainsleigh Davies, Gwylon Phillips. Roeddwn i wir yn edmygu eu gallu a'u huodled wrth areithio....

Gwesty'r Marine, 2003. Atgofion am gewri fel lorwerth Morgan a Wyn James. Gwneud fy nghynnig cyntaf a chael rhyw fath o flas arni!

Mynychu pob cynhadledd - 27 i gyd - a dod ar draws pobl hyfryd yn flynyddol!



Ond i orffen, pa lwybr mae addysg wedi ei chwarae ar siwrne droellog y 30 mlynedd ddiwethaf?

Yn sicr cylch yw'r cyfan... efallai fod syniadau newydd, ond ar ddiwedd y dydd, does dim byd wir wedi newid hyd y gwela' i o ran y cwricwlwm, asesu a disgyblaeth. Rydym wedi bod ar yr un siwrne o'r blaen....

Dyma gyfnod y diffyg cyllid lle mae athrawon yn derbyn mwy o gyfrifoldebau tra'n ceisio cadw ansawdd y profiad i'r disgyblion. Mae systemau fel Estyn yn gwneud i athrawon deimlo eu bod dan y chwyddwydr. Dyma gyfnod y pwyslais ar hunan-arfarnu er mwyn hwyluso gwaith... sylwi ar ein cryfderau a'n gwendidau cyn iddyn nhw gyfeirio atyn nhw!

Dyma gyfnod lle mae systemau hunan-arfarnu yn creu diwylliant o alw mewn i wersi, teithiau dysgu a bod yn barod trwy'r amser. Ac os nad yw plentyn yn bwrw'r targed, gofynnir i athrawon pam mae hynny...

Dyma gyfnod anodd swydd Pennaeth Adran. Yn y 1990au roedd y pwyslais ar gael y gwaith papur yn gywir, cyn dyddiau arolygiaethau, tablau cynghreiriau ac ati... ond erbyn hyn rhaid i Bennaeth Adran ddadansoddi data, paratoi ar gyfer Estyn a chynnal aelodau'r Adran, ymysg pethau eraill.

Mae mwy o waith a mwy o straen ar athrawon. Mae marcio ar nos Wener yn norm erbyn hyn, a chanslwrch ddydd Sul, a pheidiwch meddwl y galla i ddod i unman yn ystod nosweithiau'r wythnos!

Wrth edrych nôl dwi'n sylweddoli nad oes neb wedi dysgu mwy ar y siwrne na finnau! Un peth dwi wedi mwynhau yw'r amrywiaeth yn y swydd - o waith papur i ddysgu, i ddadansoddi data.

Diolch i UCAC, i'r teulu ac i ffrindiau arbennig am sicrhau fy mod yn cyrraedd cyrchfan fy siwrne fel Is-lywydd! Dwi'n edrych ymlaen yn fawr at ledu fy adenydd a dysgu fod byd i'w gael y tu hwnt i gatiau'r ysgol. Diolch i chi gyd am wneud y siwrne hynny'n bosibl, ac ymddiried y cyfrifoldeb hynny ynddof.

Rwy'n edrych ymlaen at ddilyn egwyddorion cadarn yr undeb wrth dorri tir newydd ar fy siwrne y flwyddyn nesaf.

Tâl ac amodau gwaith – wedi'u penderfynu yng Nghymru

Eleni yw'r flwyddyn gyntaf pan gaiff tâl ac amodau gwaith athrawon eu penderfynu yng Nghymru ar gyfer athrawon Cymru'n benodol – datblygiad hanesyddol!

Sefydlwyd y **Corff Adolygu Cyflogau Annibynnol Cymru** yn gynharach eleni gyda'r aelodaeth ganlynol:

- Simon Brown
- Dr John Graystone
- Yr Athro Maria Hinfelaar
- Sharron Lusher (Cadeirydd)
- Gillian Murgatroyd
- Gareth Pierce
- Dr Emyr Roberts
- Yr Athro Stephen Wilks

Mae'r Corff yn gyfrifol am gyflwyno argymhellion i Lywodraeth Cymru ar gyflog ac amodau athrawon ysgol yng Nghymru ar ôl asesu tystiolaeth gan y prif randdeiliaid sy'n cynrychioli ysgolion a'r gweithlu addysg yng Nghymru.

Mae UCAC wedi rhoi croeso i'r strwythurau newydd - yn arbennig y pwyslais ar gyd-drafod rhwng cyflogwyr, Llywodraeth Cymru ac undebau sy'n cynrychioli athrawon, gan osgoi ymgynghoriad cyhoeddus amhriodol ar dâl ac amodau gwaith y proffesiwn.

Bu Dilwyn Roberts-Young (Ysgrifennydd Cyffredinol) a Gareth Morgan (Swyddog Maes y Canolbarth a'r De-orllewin) yn mynychu cyfarfodydd perthnasol, a dros yr wythnosau diwethaf wedi cyflwyno tystiolaeth ysgrifenedig a llafar i'r Corff.

Gan nodi mai tâl yn unig fydd dan sylw eleni (gydag amodau gwaith hefyd yn dod dan ystyriaeth y flwyddyn nesaf), dyma brif argymhellion UCAC i'r Corff:

- codiad cyflog o 5% i bob athro ac arweinydd o fis Medi 2019
- adfer graddfeydd cyflog cenedlaethol, gyda phwyntiau cyflog penodol, er mwyn ail-sefydlu trefn genedlaethol, glir a chyson, gyda llwybr cyflog clir
- pwysigrwydd bod Llywodraeth Cymru'n ariannu ei phenderfyniadau yn llawn
- adrodd yn brydlon er mwyn caniatáu i unrhyw godiad cyflog gael ei weithredu o fis Medi 2019 ar ôl mynd trwy'r prosesau gofynnol

Edrychwn ymlaen at weld argymhellion y Corff maes o law. A phan ddaw penderfyniadau gan Lywodraeth Cymru ar sail yr argymhellion, byddwn yn siŵr o roi gwybod yn uniongyrchol i chi.

Toriadau i Ysgolion



Mae sefyllfa cyllido ysgolion wedi cyrraedd argyfwng.

Roedd y neges honno'n gwbl glir yn y Gynhadledd Flynyddol eleni, wrth i lu o gynigion yn ymwneud ag ariannu gael eu trafod.

Daeth yn amlwg fod ambell un – ar 6 Ebrill – yn dal i aros am gadarnhad o gyllideb eu hysgol ar gyfer y flwyddyn ariannol oedd newydd ddechrau.

Mae ysgolion yn ei chael hi'n anodd cynnal gwasanaethau sylfaenol yn wyneb y toriadau, a'r diswyddiadau sy'n dod o ganlyniad.

Mae maint dosbarthiadau'n cynyddu, lefelau staffio'n cwmpo, y cwricwlwm yn culhau, a nifer y grwpiau ymyrraeth a chefnogaeth arbenigol yn prinhau. Ar ben hynny, mae cynnal adeiladau glân a diogel yn her.

Am y rhesymau hyn, mae UCAC, ASCL, yr NAHT a'r NEU wedi dod at ei gilydd i ymgychu ar y cyd dan faner **Toriadau i Ysgolion Cymru**. Mae'r ymgyrch yn galw'n benodol am: **ariannu digonol, tryloyw a theg i ysgolion**.

Bydd lansiad swyddogol yr ymgyrch **ddydd Llun, 27 Mai yn Eisteddfod yr Urdd**,

Caerdydd a'r Fro, ar stondin Toriadau i Ysgolion Cymru. Bydd manylion ar gael o stondin UCAC.

Mae'r ymgyrch eisoes wedi cynnal digwyddiad yn y Senedd i dynnu sylw Aelodau Cynulliad at y sefyllfa ddirifrol sy'n wynebu ysgolion.

Daeth pedwar o aelodau UCAC sy'n benaethiaid i'r lansiad i roi darlun clir o'r sefyllfa yn eu hysgolion a'u hardaloedd nhw sef Eirlys Edwards (Sir Conwy), Osian Maelgwyn Jones (Wrecsam), Meurig Jones (Pen-y-bont ar Ogwr), ac Alun Williams (Merthyr Tudful).

Dewch draw i stondin Toriadau i Ysgolion yn Eisteddfod yr Urdd am ragor o wybodaeth.



Llun: Natasha Hirst

Adnoddau • Adnoddau • Adnoddau

Mae gwefan Adnoddau Addysgol CBAC yn cynnwys amrywiaeth eang o adnoddau i gefnogi cymwysterau.

Ewch at <http://adnoddau.cbac.co.uk> i gael mynediad rhad ac am ddim at yr adnoddau sydd yno ar eich cyfer.

Dyma rai enghreifftiau o'r lluo o adnoddau newydd sydd ar y wefan:



CBAC Astudiaethau Crefyddol TGAU Uned 1 ac Uned 2 – Fy Nodiadau Adolygu

Mae'r llyfrau hyn yn llawn gwybodaeth i helpu i adolygu ar gyfer TGAU

Astudiaethau Crefyddol Uned 1 (Crefydd a Themâu Athronyddol) ac Uned 2

(Crefydd a Themâu Moesegol). Maen

nhw'n cyfuno cynnwys allweddol gyda thasgau enghreifftiol a chyngor ymarferol i greu canllawiau adolygu y gall dysgwyr ddibynnu arny'n nhw i adolygu, cryfhau a phrofi eu gwybodaeth.



CBAC Astudiaethau Crefyddol U2: Iddewiaeth

Bydd y gwerslyfr newydd hwn yn cefnogi dysgwyr

drwy'r cwrs ac yn eu helpu i baratoi ar gyfer eu

harholiadau. Mae cynnwys manwl y llyfr wedi'i gyflwyno

mewn ffordd glir a deniadol i helpu'r dysgwyr i ddeall y

wybodaeth gan ddilyn llwybr dysgu sy'n seiliedig ar

sgiliau. Mae termau allweddol wedi'u nodi'n glir a'u

diffinio drwy'r llyfr; mae ynddo hefyd Adran Datblygu Sgiliau a fydd yn

helpu dysgwyr i gymhwyso eu gwybodaeth am gynnwys y fanyleb a'r

materion sy'n cael eu codi.



CBAC Bwyd a Maeth TGAU – Fy Nodiadau Adolygu

Mae'r llyfr hwn yn llawn gwybodaeth i helpu i adolygu ar

gyfer TGAU Bwyd a Maeth. Mae'r chwe thestun

allweddol wedi'u rhannu'n adrannau llai, er mwyn


cyflwyno gwybodaeth mewn ffordd sy'n hawdd ei

darllen a'i deall. Mae termau allweddol wedi'u gosod

mewn print trwm er mwyn tynnu sylw atynt ac i atgoffa

i'w defnyddio'n gyson. Bydd cyfle i roi cynnig ar gwestiynau enghreifftiol i

brofi dealltwriaeth ac adnabod meysydd i'w gwella.



CBAC Mathemateg ar gyfer U2 – Pur

Mae'r gyfrol hon wedi'i llunio i gyd-fynd â manyleb

newydd Mathemateg U2 CBAC. Yn ogystal â rhoi sylw

manwl i bob un o'r testunau yn y fanyleb newydd,

mae'r gyfrol hefyd yn sbarduno'r dysgwyr yn yr

adrannau Profi eich hun ac yn rhoi cyngor gwerthfawr

iddyn nhw yn yr adrannau Gwella Gradd. Drwy gyfrwng

adran Cam wrth Gam, mae'n cynnig cefnogaeth ychwanegol ar gyfer y

cwestiynau datrys problemau a'r cwestiynau anstrwythuredig newydd.



CBAC Lefel 3 Tystysgrif a Diploma Cymhwysol Troseddeg

Dyma gyfrol sy'n gyflwyniad gwyb i faes cymhleth

Troseddeg. Diben yr uned gyntaf yw cyflwyno'r ystod

eang o droseddau sy'n digwydd yn ein cymdeithas.

Ystyried pam bod pobl yn troseddu yw prif ffocws yr ail

uned. Mae'r drydedd uned yn dilyn trosedd o'r man lle

digwyddodd hi i'r llys, ac yn tywys y darllynydd drwy'r

broes sy'n arwain at ddyfarnu rhywun yn euog neu'n


ddieuog. Testun yr uned olaf yw'r system cyfiawnder troseddol a sut

mae'n gweithio er mwyn sicrhau bod pobl yn ufuddhau i'r gyfraith ac yn

amharod i dorri cyfreithiau.



Cyhoeddiadau dechrau Tymor yr Haf:



CBAC Busnes TGAU – Fy Nodiadau Adolygu

CBAC Hanes TGAU – Fy Nodiadau Adolygu

CBAC Safon Uwch Y Gyfraith, Llyfr 2

Dilynwch adnoddau addysgol CBAC ar [@adnoddau_cbac](https://www.facebook.com/adnoddau_cbac)

Byd yn ei le

Efallai'ch bod chi'n gyfarwydd â rhaglen Guto Harri ar S4C – Byd yn ei le?

Fel mae'n digwydd, roedd cynhyrchwyr y rhaglen yn paratoi eitem am gyllidebau ysgolion a thoriadau i niferoedd athrawon – felly ble gwell i recordio cyfweiliadau - gyda'r Gweinidog, a gydag athrawon a phenaethiaid – na ...Chynhadledd Flynyddol UCAC!

Mae modd gwyllo'r rhaglen (Pennod 3, Cyfres 2019) am gyfnod penodol eto:

<https://www.bbc.co.uk/programmes/p075bv8s>

Fel arall, dyma flas o'r cyfweled.

